OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1807 (Cy.175)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - - 13 Gorffennaf 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 15 Gorffennaf 2010
Y n dod i rym - - 9 Awst 2010

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau y maent yn eu diwygio, Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a GrantiauAmaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 ("y prif Reoliadau"), yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn yr Atodlen i'r prif Reoliadau. Mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad yn y prif Reoliadau at offerynnau'r UE gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 9 Awst 2010.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2006/3342 (Cy.303) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 251).